

# Newid agwedd

“Cwpan y fendith yr ydym yn ei fendithio,  
onid cyfranogiad o waed Crist ydyw?” (adn. 16)

## Beth am ddarllen 1 Corinthiaid 10:14–22 ac yna myfyrio

Mae'r Arglwydd Iesu yn disgwyl ymrwymiad deublyg o blith ei bobl. Yn gyntaf, mae'n galw arnom i roi ein hunain yn gyfan gwbl iddo, ac yn ail, mae'n gofyn inni roi ein hunain yn gyfan gwbl i'n gilydd. Mae angen inni ildio i Dduw ac i eraill. Rwyf yn siarad yn awr, wrth gwrs, am ein perthynas efo'n gilydd fel brodyr a chworydd yng Nghrist. Mae'r rhai sydd yn perthyn i Dduw yn perthyn i bawb arall sydd yn perthyn i Dduw. Does yr un gymdeithas yn y bydysawd sydd mor real a bendigedig â'r gymdeithas y mae'r saint yn ei mwynhau ar sail eu perthynas â'r Arglwydd Iesu Grist.

Fe gyfieithir y gair Groeg *koinonia* yn 'gymdeithas' neu 'gymundeb'. Er nad gair Cristnogol oedd hwn yn wreiddiol, fe fabwysiadwyd y gair gan yr Eglwys gan roi iddo ystyr newydd. Yn y testun sydd o'n blaen heddiw, mae Paul yn defnyddio'r gair i ddisgrifio'r rhan sydd i ni yng Nghrist wrth inni dorri'r bara hefo'n gilydd yn ei enw. Y mae i *koinonia* ystyr mwy nag a feddodd erioed cyn i'r Cristnogion ei fabwysiadu. Mae'r gair ei hunan wedi ei adfer. Mae perthynas yn yr Eglwys yn gwbl wahanol i berthynas yn y byd; neu felly y dylai fod.

Dywedodd Simon Pedr, yr un yr ydym yn ceisio dilyn ei gyngor yn y rhifyn hwn, unwaith wrth Iesu: “Er iddynt gwmpo bob un o'th achos di, ni chwypaf fi byth.” (Mathew 26:33) Mae'r geiriau hyn yn amlgu agwedd ‘fi a nhw’. Roedd Pedr yn ymdeimlo â'r syniad ei fod uwchlaw pawb arall, yn amlgu hunangyfiawnder ac yn feiriadol iawn. Ond wedi edifarhau ac wedi ei lenwi â'r Ysbyrd Glân, fe sylwn ar y newid o ‘fi’ i ‘ni’. Yn Actau 3:12 fe welwch ei fod yn holi pobl: “Pam yr ydych yn edrych arnom ni?” Neu yn Actau 4:9 fe ddywed: “Os ydym ni yn cael ein galw i gyfrif heddiw.” Ac yn Actau 4:20: “Ni allwn ni beidio â siarad.” Mae wedi newid ei bersbectif. Felly, dylai ein persbectif ninnau gael ei newid.

## Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Actau 2:42–47; 4:32–37; 6:1–3

## Meddylwch am y cwestiynau hyn:

1. Sut fu i'r Eglwys Fore ymarfer y *koinonia*?
2. Sut mae dyfnhau eich perthynas â Christnogion eraill?

## Gweddi

Fy Nuw, fy Nhad, caniatâ i mi ddeall y gymdeithas yr wyf nawr yn perthyn iddi ers i ti ddod yn rhan o'm bywyd i, ers i ti ddod i mewn i'm bywyd i ac ers i mi ddod yn rhan o'th Eglwys. Cynorthwya fi i ddal cymundeb gwirioneddol ag eraill. Yn enw Iesu. Amen.